Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar ansawdd addysg yn

Ysgol Gynradd Kingsland
Ffordd Cyttir
Caergybi
Ynys Môn
LL65 2TH

Rhif yr ysgol: 6602176

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2010

gan

Merfyn Lloyd Jones
78218

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mehefin 2010

O dan rif contract Estyn: 1120409

Ⓗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2010: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Cyflwyniad

Arolygwyd Ysgol Gynradd Kingsland fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gynradd Kingsland rhwng 20/04/10 a 22/04/10, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan Merfyn Lloyd Jones. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae adroddiadau Estyn yn dilyn ei arweiniad ar gyfer ysgrifennu a golygu adroddiadau, sydd ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk). Mae'r tabl isod yn dangos y termau a ddefnyddir gan Estyn a syniad bras o'u hystyr. Mae'r tabl ar gyfer rhoi arweiniad yn unig.

Bron pob un	gydag ychydig iawn o eithriadau
Y rhan fwyaf	90% neu fwy
Llawer	70% neu fwy
Mwyafrif	dros 60%
Hanner/tua hanner	yn agos 50%
Lleiafrif	islaw 40%
Rhai	islaw 20%
Ychydig iawn	llai na 10%

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1 da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2 nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3 nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4 rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5 llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **safonol**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys Tudalen

Cyd-destun	**1**
Crynodeb	**1**
Argymhellion	**6**
Safonau	6
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	9
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	9
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	10
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	**12**
Arweinyddiaeth a rheolaeth	14
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	14
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	15
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	**16**
Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu	17
Mathemateg	17
Gwyddoniaeth	18
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	19
Dylunio a thechnoleg	20
Hanes	21
Addysg grefyddol	22
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	**23**
Atodiadau	24
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	24
2 Data a dangosyddion ysgol	24
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	25
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	27
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	27

Cyd-destun

Natur y darparwr

1 Mae Ysgol Gynradd Kingsland wedi ei lleoli yn ardal Kingsland tref Caergybi ar Ynys Môn a chaiff ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn (AU). Daw nifer arwyddocaol o'r disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol o du allan i'r dalgylch traddodiadol. Gwyn yw cefndir ethnig bron yr holl ddisgyblion a Saesneg yw iaith cyfathrebu eu cartrefi. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal fel un sydd dan anfantais economaidd.

2 Darpara'r ysgol ar gyfer disgyblion yn yr ystod lawn o allu rhwng tair ac 11 blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 135 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o'r derbyn i flwyddyn (B) 6. Yn ychwanegol, mae 18 o ddisgyblion yn mynychu'r dosbarth meithrin yn rhan-amser yn y boreau. Caiff disgyblion meithrin eu derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn academaidd y maent yn bedair blwydd oed.

3 Mae gan dri disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) ac mae 24 o ddisgyblion ychwanegol ar un ai gweithredu ysgol neu weithredu ysgol a mwy ar gyfer cefnogaeth ychwanegol. Mae 28% o'r disgyblon wedi eu cofrestru i dderbyn prydau ysgol am ddim.

4 Mae'r pennaeth presennol wedi bod yn ei swydd ers Medi 2008. Yn ychwanegol i'r pennaeth a'r dirprwy, mae pedwar athro llawn amser a dau ran-amser yn yr ysgol. Trefnir y disgyblion llawn amser i bum dosbarth. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng o 42 ers i'r ysgol gael ei harolygu diwethaf yn 2004.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

5 Mae prif flaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2009-2010 yn cynnwys:

- datblygu'r broses hunan arfarnu a monitro ymhellach;
- gwella'r ddarpariaeth y tu allan i blant y Cyfnod Sylfaen;
- datblygu medrau meddwl disgyblion yn unol â gofynion Cwricwlwm 2008; a
- parhau i fireinio'r dulliau cynllunio ac asesu.

Crynodeb

6 Mae Ysgol Kingsland yn ysgol dda a gofalgar gyda llawer o nodweddion rhagorol a lle mae safonau wedi eu cynnal neu eu gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae'n darparu addysg o ansawdd dda mewn amgylchedd ddysgu bywiog lle mae'r mwynhad yn amlwg. Gwna'r holl ddisgyblion gynnydd da a chyrraedd eu nodau dysgu cytunedig. Mae gan yr ysgol awyrgylch gynnes a chyfeillgar lle mae disgyblion yn awyddus i ddysgu. Mae'r pennaeth a holl aelodau'r staff yn ymroddedig ac yn gweithio'n galed.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		**Gradd arolygu**
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 1
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 2
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 1
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 2
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 1

7 Mae'r adroddiad yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol. Barn y tîm arolygu yw bod nifer o nodweddion rhagorol i gwestiynau allweddol 2, 3 a 5 ac felly dyfarnwyd y Radd 1 uwch.

8 Mae asesiadau statudol athrawon yn 2009 yn dynodi fod 63% o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 wedi cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (DPC), sef y lefel 2 disgwyliedig yn y tri phwnc Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'i gymharu gyda chyfartaledd yr awdurdod lleol (ALl) o 79% a'r cyfartaledd cenedlaethol o 81%. Yng nghyfnod allweddol 2 yn yr un flwyddyn, cyrhaeddodd 83% o'r disgyblion y DPC ar lefel 4 neu'n uwch.

9 O'i chymharu gydag ysgolion eraill yng Nghymru, sydd â nifer tebyg o ddisgyblion gyda'r hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn rhoi'r ysgol yn yr 50% uchaf ar gyfer Saesneg ac yn y 25% isaf ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Yn yr un modd, yng nghyfnod allweddol 2 yn 2009, mae canlyniadau yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru ar gyfer Saesneg ac yn yr 50% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

10 Mae nifer y disgyblion sydd yn cymryd rhan yn asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC) ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn rhy fechan i wneud cymariaethau ystyrlon gyda data cenedlaethol blwyddyn ar flwyddyn. Fodd bynnag, mae ystyriaeth o ddata dros y tair blynedd diwethaf yn dynodi fod perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 wedi cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r ALl, cenedlaethol a rhai'r teulu mewn Saesneg ond nid yw wedi perfformio cystal mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr ALl a'r rhai cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae perfformiad bechgyn wedi bod yn well na pherfformiad y merched yn y ddau gyfnod allweddol ar wahân i Saesneg. Yn 2009, ni chyflawnodd unrhyw ddisgybl y lefel 3 uwch yng nghyfnod allweddol 1 na'r lefel 5 uwch yng nghyfnod allweddol 2.

11 Roedd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
33%	67%	0%	0%	0%

12 Mae'r ffigurau hyn yn welliant arwyddocaol ar rhai'r arolygiad blaenorol. Maent hefyd yn arwyddocaol gwell na'r darlun cenedlaethol a adroddir gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi (PAEM) yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2008-2009 lle, ar y cyfan, mae safonau mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn Radd 1 a 2 mewn 84% o'r gwersi gyda 12% o'r rhain yn Radd 1.

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Maes Arolygu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

13 Beth bynnag eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA, gynnydd da tuag at ddiwallu eu potensial a'u lefelau cyflawniad a broffwydwyd. Maent yn awyddus ac yn barod i symud ymlaen at y cyfnod nesaf o'u dysgu.

14 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bum mlwydd oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Gwnânt gynnydd da yn eu medrau cyfathrebu a chymhwysant eu medrau mathemategol yn effeithiol yn ystod gweithgareddau ymarferol.

15 Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyffredinol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y medrau allweddol o siarad, gwrando ac ysgrifennu yn dda. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau darllen yn dda wrth chwilio am wybodaeth mewn llyfrau neu ar wefannau ac yn ysgrifennu'n hyderus i nifer o ddibenion.

16 Wrth ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn amrediad o feysydd cwricwlaidd, mae llawer o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn cyflawni safonau da. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nodweddion da yn y modd mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

17 Mae medrau dwyieithog y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol gyfan. Mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Wrth iddynt aeddfedu, arddangosant hyder wrth siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae'r gallu i siarad yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg yn nodwedd ragorol yn yr ysgol.

18 Mae gallu'r mwyafrif o ddisgyblion i weithio'n annibynnol o dan gyfarwyddyd yr athro yn dda, ond yng nghyfnod allweddol 2, collir ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am ddysgu eu hunain. O ganlyniad, nid yw eu medrau o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau wedi datblygu'n ddigonol.

19 Gwna'r holl ddisgyblion gynnydd da wrth ddatblygu eu medrau personol, cymdeithasol a moesol. Mae ymddygiad yr holl ddisgyblion mewn gwersi, o amgylch yr ysgol, a thu allan wrth chwarae, yn ganmoladwy.

20 Cyfartaledd y presenoldeb dros y tri thymor cyfan diwethaf yw 93.5%. Mae prydlondeb yn dda.

21 Derbynia'r disgyblion gyfleoedd niferus i ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gweithredu cymunedol. Ceir cysylltiadau da gyda busnesau lleol ac mae medrau menter disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn nodwedd ragorol. Mae'r profiadau hyn yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a rhoi seiliau cadarn i bwysigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

22 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
36%	64%	0%	0%	0%

23 Mae'r ffigurau hyn llawer yn uwch na'r darlun cenedlaethol a adroddir gan PAEM yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2008-2009, lle mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn Radd 1 a 2 mewn 85% o wersi gyda 17% ohonynt yn Radd 1. Mae ansawdd yr addysgu yn arwyddocaol gwell nag oedd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

24 Mae'r addysgu ar draws yr ysgol bob amser yn dda gyda nifer dda o wersi'n cael eu barnu'n rhagorol.

25 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:

- amcanion dysgu eglur caiff eu deall gan ddisgyblion ar ddechrau gwersi;
- cyflwyniad bywiog ac egnïol, sydd yn cymell a chyffroi'r disgyblion;
- defnydd o amrediad eang o dechnegau addysgu a threfniadaeth dosbarth sydd yn hyrwyddo dysgu effeithiol a chydweithredol; a
- profiadau dysgu byrlymus ac ysgogol a'r defnydd o ystod o adnoddau o ansawdd, gan gynnwys TGCh, sydd yn sicrhau fod disgyblion ynghlwm wrth ac yn uchel eu cymhelliant yn y tasgau maent yn cyflawni.

26 Gwna'r athrawon ymdrechion rhagorol i ddatblygu cymhwysedd dwyieithog disgyblion. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn nodweddion cyson yn y modd mae athrawon yn cyfathrebu gyda'r disgyblion a'r disgyblion gyda'i gilydd oddi fewn a thu allan i'r dosbarth.

27 Mae ansawdd y gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd yn diwallu'r gofynion statudol. Mae systemau a gweithdrefnau sydd bellach mewn lle yn tracio cynnydd a chyflawniadau disgyblion yn effeithiol ym mhob maes dysgu a phwnc yn rheolaidd a chyson. Defnyddir y meddalwedd mathemateg a TGCh a brynwyd yn ddiweddar yn effeithiol iawn i ddynodi meysydd penodol ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol.

28 Mae cynnydd da yn y weithdrefn o gynnwys disgyblion yn y broses o asesu gwaith eu hunain, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae llawer yn dod yn gynyddol hyderus i asesu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn gywir.

29 Mae ansawdd y profiadau dysgu mae disgyblion yn derbyn yn rhagorol. Darperir cyfleoedd ardderchog i sicrhau fod disgyblion yn datblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a datrys problemau, ond nid yw hyn mor amlwg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn nodwedd ragorol ar draws yr ysgol.

30 Mae gan yr ysgol amrediad da iawn o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol. Mae'r amrediad o glybiau ar ôl ysgol, sydd yn cynnwys drama a digwyddiadau chwaraeon yn eithriadol. Caiff profiadau addysgol disgyblion eu cyfoethogi gan amrediad o bartneriaethau effeithiol. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni a'r gymuned ehangach yn rhagorol.

31 Mae'r sylw a rhoddir i ddatblygiad cynaliadwy, o fewn y cwricwlwm a thrwy waith gyda'r Comisiwn Coedwigaeth yn effeithiol iawn.

32 Cynigir gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd dda i'r disgyblion. Mae gan y disgyblion perthynas dda â'i gilydd a gyda'r holl staff ac maent yn gyfforddus yn y wybodaeth y medrant droi at unrhyw aelod o'r staff am help neu gyfarwyddyd. Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau eglur sydd yn cyfrannu at les, iechyd a diogelwch y disgyblion yn ystod yr amser maent yng ngofal yr ysgol.

33 Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion sydd ag AAA ac mae'n diwallu gofynion y Cod Ymarfer yn llawn. Caiff disgyblion eu dynodi'n gynnar yn systematig trwy asesu athro effeithiol. Mae gan yr ysgol bolisïau eglur i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

34 Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan y pennaeth yn rhagorol. Yn yr amser cymharol fyr y bu yn yr ysgol, mae ei weledigaeth, a rhennir gan holl aelodau'r staff a'r llywodraethwyr, yn eglur. Mae nodweddion da i rôl y llywodraethwyr yn natblygiad strategol yr ysgol. Maent yn hynod gefnogol o'r pennaeth ac yn adnabod yr ysgol yn dda.

35 Mae gan yr uwch dîm rheoli ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol ac mae gan gydlynwyr ysgol a chwricwlwm olwg clir iawn o'r cryfderau a'r diffygion yn eu meysydd o gyfrifoldeb.

36 Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau'r ALl a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC).

37 Sefydlodd yr ysgol broses hunan arfarnu effeithiol sydd yn rhoi ystyriaeth dda i'r holl bynciau a'r meysydd dysgu ar gyfer plant 3-11 blwydd oed. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd ar gyfer yr arolygiad yn rhagorol. Mae'n eglur, yn fanwl ac yn ymdrin â'r holl agweddau o fywyd ysgol. Caiff ei ddefnyddio fel arf effeithiol i ddynodi blaenoriaethau'r ysgol i'r dyfodol ac mae'r deilliannau yn dynodi'r camau eglur a gymerir i adeiladu ar gryfderau a chywiro'r diffygion.

38 Cytunir ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol (CDY) yn dilyn archwiliadau a dadansoddiadau manwl o'r wybodaeth sydd ar gael. Mae'n ddogfen ddefnyddiol sydd yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cydberthynas rhwng yr adroddiad hunan arfarnu, y blaenoriaethau yn y CDY a thargedau unigol disgyblion bob amser yn eglur.

39 Mae ansawdd yr adnoddau dysgu yn rhagorol yn yr holl feysydd dysgu. Maent yn arbennig o amlwg mewn TGCh. Gwneir defnydd rhagorol ohonynt i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r disgyblion.

40 Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn dda ac yn diwallu anghenion y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r dosbarthiadau yn ddigonol yn nhermau gofod ac mae bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob un. Cafodd yr ardal allanol ei

ddatblygu'n helaeth a sensitif ac mae'n cynnwys gardd ac ardaloedd chwarae sydd wedi eu cyfarparu'n dda. Mae'r defnydd a wneir o'r ardal hon i wella profiad dysgu'r disgyblion yn rhagorol.

41 Caiff y gyllideb ei rheoli'n effeithiol iawn gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Mae gan y corff llywodraethol weithdrefnau cadarn i sicrhau y dilynir y gweithdrefnau ariannol cywir. Rhydd yr ysgol werth da am arian.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn yr ardaloedd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

A1 gynnal a gwella ymhellach y safonau ym mhynciau'r CC;

A2 gwella presenoldeb;

A3 gwella gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i weithio'n annibynnol fel eu bod yn dod yn gynyddol gyfrifol am eu dysgu eu hunain; a

A4 sicrhau fod cydberthynas eglur rhwng canfyddiadau'r broses hunan arfarnu, y blaenoriaethau yn y CDY a thargedau unigol i ddisgyblion

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

42 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

43 Mae asesiadau statudol athrawon yn 2009 yn dynodi fod 63% o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 wedi cyflawni'r DPC sef y lefel 2 disgwyliedig yn y tri phwnc Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'i gymharu gyda chyfartaledd yr ALl o 79% a'r cyfartaledd cenedlaethol o 81%. Yng nghyfnod allweddol 2 yn yr un flwyddyn, cyrhaeddodd 83% o'r disgyblion y DPC ar lefel 4 neu'n uwch.

44 O'i chymharu gydag ysgolion eraill yng Nghymru, sydd â nifer tebyg o ddisgyblion gyda'r hawl i dderbyn prydau bwyd am ddim, mae perfformiad yr ysgol yng nghyfnod allweddol 1 yn rhoi'r ysgol yn yr 50% uchaf ar gyfer Saesneg ac yn y 25% isaf ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2 yn 2009, mae canlyniadau yn rhoi'r ysgol yn y 25% uchaf yng Nghymru ar gyfer Saesneg ac yn yr 50% uchaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

45 Mae nifer y disgyblion sydd yn cymryd rhan yn asesiadau'r CC ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn rhy fechan i wneud cymariaethau ystyrlon gyda data cenedlaethol blwyddyn ar flwyddyn. Fodd bynnag, mae ystyriaeth o ddata dros y tair blynedd diwethaf yn dynodi fod perfformiad yng nghyfnod allweddol 1 wedi

cymharu'n ffafriol gyda chyfartaleddau'r ALl, cenedlaethol a rhai'r teulu mewn Saesneg ond nid yw wedi perfformio cystal mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 wedi bod yn gyson uwch na chyfartaleddau'r teulu, yr ALl a'r rhai cenedlaethol. Yn gyffredinol, mae perfformiad bechgyn wedi bod yn well na pherfformiad y merched yn y ddau gyfnod allweddol ar wahân i mewn Saesneg. Yn 2009, ni chyflawnodd unrhyw ddisgybl y lefel 3 uwch yng nghyfnod allweddol 1 na'r lefel 5 uwch yng nghyfnod allweddol 2.

46 Roedd safonau cyflawniad disgyblion yn y gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
33%	67%	0%	0%	0%

47 Mae'r ffigurau hyn yn welliant arwyddocaol ar rhai'r arolygiad blaenorol. Maent hefyd yn arwyddocaol gwell na'r darlun cenedlaethol a adroddir gan PAEM yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2008-2009 lle, ar y cyfan, mae safonau mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn Radd 1 a 2 mewn 84% o'r gwersi gyda 12% o'r rhain yn Radd 1.

Graddau ar gyfer safonau yn y pynciau a arolygwyd

Maes Arolygu	Cyfnod Allweddol 1	Cyfnod Allweddol 2
Mathemateg	Gradd 2	Gradd 2
Gwyddoniaeth	Gradd 2	Gradd 2
Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu	Gradd 2	Gradd 2
Dylunio a thechnoleg	Gradd 2	Gradd 2
Hanes	Gradd 2	Gradd 1
Addysg grefyddol	Gradd 2	Gradd 2

48 Beth bynnag eu cefndir cymdeithasol, ethnig neu ieithyddol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhan sydd ag AAA, gynnydd da tuag at ddiwallu eu potensial a'r lefelau cyflawniad a broffwydwyd. Maent yn awyddus ac yn barod i symud ymlaen at y cyfnod nesaf o'u dysgu.

49 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bum mlwydd oed yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Dengys lawer o'r plant ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at ddysgu a chydweithiant yn dda gyda'i gilydd. Maent yn ymgymryd yn frwdfrydig â gweithgareddau heriol sydd yn atgyfnerthu a datblygu eu dysgu.

50 Gwrendy'r rhan fwyaf o blant y Cyfnod Sylfaen yn astud yn ystod sesiynau grŵp neu ddosbarth-cyfan a mynegant eu syniadau'n eglur. Cymhwysant eu medrau mathemategol yn effeithiol yn ystod gweithgareddau ymarferol. Gwnânt gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol.

51 Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae safonau cyffredinol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y medrau allweddol o siarad, gwrando ac ysgrifennu yn dda. Gwrandawant yn astud a mynegi eu hunain yn eglur. Mae'r rhai mwy galluog yn siarad gyda rhuglder a dealltwriaeth briodol sydd yn cyfateb i'w hoed. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau darllen yn dda wrth chwilio am wybodaeth mewn llyfrau neu ar wefannau ac yn ysgrifennu'n hyderus i nifer o ddibenion.

52 Mae ansawdd medrau llawysgrifen a chyflwyno disgyblion yn gyson dda ar draws yr holl feysydd cwricwlaidd.

53 Wrth ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn amrediad o feysydd cwricwlaidd, mae llawer o ddisgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn cyflawni safonau da. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae nodweddion da yn y modd mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau TGCh yn bwrpasol a medrus i gasglu a chyflwyno gwybodaeth a data yn ogystal â thasgau asesu a thraws-cwricwlaidd. Defnyddiant amrediad o feddalwedd ac offer TGCh yn hyderus.

54 Ar draws yr ysgol mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau creadigol da. Mae gwybodaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru yn dda.

55 Mae medrau dwyieithog y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol gyfan. Mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg. Wrth iddynt aeddfedu, arddangosant hyder wrth siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae'r gallu i siarad yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg yn nodwedd ragorol yn yr ysgol.

56 Mae'r arfer ysgol-gyfan o rannu amcanion y wers, meini prawf llwyddiant a gosod targedau unigol i ddisgyblion yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygu gallu llawer o ddisgyblion i ddod i arfarniad realistig am eu perfformiad yn ystod gwersi ac i ddynodi'r hyn sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella. Maent yn glir o ran y targedau maent yn ymgeisio atynt a gwnânt gynnydd da iawn tuag at gyflawni eu potential a symud ymlaen i'r cyfnod nesaf o'u dysgu.

57 Mae gallu'r mwyafrif o ddisgyblion i weithio'n annibynnol o dan gyfarwyddyd athro yn dda, ond yng nghyfnod allweddol 2, collir ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am ddysgu eu hunain. O ganlyniad, nid yw eu medrau o ran datrys problemau a gwneud penderfyniadau wedi datblygu'n ddigonol.

58 Gwna'r holl ddisgyblion gynnydd da wrth ddatblygu eu medrau personol, cymdeithasol a moesol. Mae ymddygiad yr holl ddisgyblion mewn gwersi, o amgylch yr ysgol, a thu allan wrth chwarae, yn ganmoladwy. Maent yn foesgar a chyfeillgar iawn ac yn gwrtais tuag at ymwelwyr. Maent yn hapus i siarad gydag ymwelwyr ac yn cymryd diddordeb brwd yn yr hyn sydd ganddynt i ddweud. Mae perthnasau disgyblion gyda'i gilydd yn dda iawn. Mae hyn yn galluogi disgyblion i fod yn gadarn a hyderus yn eu dysgu. Maent yn sensitif i anghenion eraill ac yn dangos hyn trwy ofalu am ei gilydd o fewn ac o amgylch yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth ragorol o gyfleoedd cyfartal a dangosant barch am yr amrywiaeth o gredoau a thraddodiadau diwylliannol a geir mewn cymdeithas.

59 Cyfartaledd y presenoldeb dros y tri thymor cyfan diwethaf yw 93.5%. Mae hyn yn welliant ar yr arolygiad diwethaf ac mae'r ysgol wedi gosod targed o 94% i'w hunan ar gyfer 2010-2011. Mae prydlondeb yn dda.

60 Derbynia'r disgyblion gyfleoedd niferus i ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gweithredu cymunedol ac i gymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau cymdeithasol a chodi arian yn y gymuned. Maent yn ymhyfrydu wrth gynnig lletygarwch i'r rhai sydd yn mynychu Canolfan Ddydd Cymunedol Kingsland. Ceir cysylltiadau da gyda busnesau lleol ac mae medrau menter disgyblion, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn nodwedd ragorol. Mae'r profiadau hyn yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas a rhoi seiliau cadarn i bwysigrwydd byd gwaith a dinasyddiaeth.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

61 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Barn y tîm arolygu yw bod nodweddion rhagorol yn ansawdd yr addysgu a'r arfer asesu.

62 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
36%	64%	0%	0%	0%

63 Mae'r ffigurau hyn llawer yn uwch na'r darlun cenedlaethol a adroddir gan PAEM yn ei Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar gyfer 2008-2009, lle mae ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd yng Nghymru yn Radd 1 a 2 mewn 85% o wersi gyda 17% ohonynt yn Radd 1. Mae ansawdd yr addysgu yn arwyddocaol gwell nag oedd yn ystod yr arolygiad diwethaf.

64 Mae'r addysgu ar draws yr ysgol bob amser yn dda gyda nifer dda o wersi'n cael eu barnu'n rhagorol. Dengys yr holl athrawon wybodaeth bynciol da ac maent yn gyfarwydd gyda'r datblygiadau diweddaraf yn eu maes. Mae'r holl staff yn hollol ymrwymedig i gyfleoedd cyfartal, beth bynnag y rhyw, gallu neu hil. Maent wedi sefydlu perthynas dda iawn gyda'r disgyblion sydd yn seiliedig ar barch a'r defnydd cyson a phriodol o anogaeth a chanmoliaeth. O ganlyniad, caiff yr holl ddisgyblion eu trin yn deg a gyda pharch. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad a'r cyflwyniad o waith disgyblion.

65 Mae nodweddion rhagorol yr addysgu'n cynnwys:

- amcanion dysgu eglur caiff eu deall gan ddisgyblion ar ddechrau gwersi;
- cyflwyniad bywiog ac egnïol, sydd yn cymell a chyffroi'r disgyblion;
- defnydd o amrediad eang o dechnegau addysgu a threfniadaeth dosbarth sydd yn hyrwyddo dysgu effeithiol a chydweithredol; a
- profiadau dysgu byrlymus ac ysgogol a'r defnydd o ystod o adnoddau o ansawdd, gan gynnwys TGCh, sydd yn sicrhau fod disgyblion ynghlwm wrth ac yn uchel eu cymhelliant yn y tasgau maent yn cyflawni.

66 Mae nodweddion da'r addysgu yn cynnwys:

- gwaith wedi ei osod ar y lefel cywir i ddisgyblion o bob oed a gallu a rhoi cefnogaeth dda iawn mewn gwersi;
- technegau cwestiynu da sydd yn herio ac ysgogi'r disgyblion;
- cefnogaeth effeithiol iawn gan y cynorthwywyr dosbarth;
- perthnasau da sydd yn helpu creu ethos lle caiff dysgu ei feithrin; a
- defnydd effeithiol iawn o'r amgylchedd y tu allan fel estyniad i'r dosbarth.

67 Gwna'r athrawon ymdrechion rhagorol i ddatblygu cymhwysedd dwyieithog disgyblion. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn nodweddion cyson yn y modd mae athrawon yn cyfathrebu gyda'r disgyblion a'r disgyblion gyda'i gilydd oddi fewn a thu allan i'r dosbarth.

68 Mae ansawdd y gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd yn diwallu'r gofynion statudol. Mae systemau a gweithdrefnau sydd bellach mewn lle yn tracio cynnydd a chyflawniadau disgyblion yn effeithiol ym mhob maes dysgu a phwnc yn rheolaidd a chyson. Defnyddir y meddalwedd mathemateg a TGCh a brynwyd yn ddiweddar yn effeithiol iawn i ddynodi meysydd penodol ar gyfer gwelliant. Mae hyn yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol.

69 Mae'r disgyblion yn cael y sylwadau llafar ac ysgrifenedig gan eu hathrawon i fod yn ddefnyddiol wrth eu helpu i ddeall y cryfderau a'r gwendidau yn eu gwaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff sylwadau ysgrifenedig ar waith disgyblion eu cysylltu i amcanion gwers penodol. Yn yr arfer orau, mae'r sylwadau hyn yn cynnig sut i wella agweddau penodol.

70 Mae cynnydd da yn y weithdrefn o gynnwys disgyblion yn y broses o asesu gwaith eu hunain, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae llawer yn dod yn gynyddol hyderus i asesu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill trwy ddynodi'n gywir y nodweddion da mewn darn o waith a chynnig ffyrdd o'i wella. Mae'r broses hon yn gwella dealltwriaeth disgyblion o'r hyn sydd raid iddynt ei wneud i wella gwaith eu hunain a chynnal y cynnydd.

71 Sefydlwyd gweithdrefnau cymedroli priodol o fewn y dalgylch. Mae hyn yn gwella dealltwriaeth athrawon o asesu a'r safoni o waith disgyblion yn yr ysgol.

72 Sicrha'r ysgol fod adroddiadau blynyddol i rieni/gofalwyr yn eglur, yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol. Maent yn diwallu'r gofynion statudol. Darperir cyfleoedd priodol ar draws y flwyddyn i rieni gynnig arsylwadau ac i drafod cynnydd eu plant. Yn ystod y cyfarfod cyn-arolwg, lleisiodd y rhieni eu gwerthfawrogiad enfawr o bolisi 'drws agored' yr ysgol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

73 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Ym marn y tîm arolygu, mae nodweddion rhagorol yn ansawdd y profiadau dysgu mae'r ysgol yn eu cynnig.

74 Mae ansawdd y profiadau dysgu mae disgyblion yn derbyn yn rhagorol. Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer yr ystod gyfan o anghenion y disgyblion, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag AAA trwy ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys. Rhoddir cyfleoedd ar gyfer ennill cymwysterau mewn hyfedredd beicio, nofio a hyfedredd ar y rhyngrwyd. Mae'r ysgol yn cydymffurfio’n llwyr gyda gofynion y CC ac addysg grefyddol. Mae trefniadau'r ysgol gogyfer a mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a rhoi mynediad cyfartal i'r holl ddisgyblion yn rhagorol. Teimla'r disgyblion yn ddiogel a siaradant am eu gorfoledd a'u brwdfrydedd am weithgareddau'r ysgol.

75 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant dan bump yn briodol i'w hanghenion a gwna'r plant gynnydd da tuag at ganlyniadau'r Cyfnod Sylfaen. Caiff profiadau dysgu eu cynllunio'n dda ac maent yn cynnig amrediad ardderchog o gyfleoedd i gyfoethogi dysgu'r plant.

76 Yng nghyfnodau allweddol 1 a 2, mae polisïau ar gyfer holl feysydd y cwricwlwm yn eu lle ac mae'r cynlluniau gwaith wedi eu diweddaru mewn ymateb i'r gweithdrefnau asesu a'r cwricwlwm diwygiedig yng Nghymru

77 Darperir cyfleoedd ardderchog i sicrhau fod disgyblion yn datblygu eu medrau sylfaenol ac allweddol yn llwyddiannus. Cynllunnir yn ofalus ar gyfer y rhain a chânt eu hintegreiddio'n briodol i nifer o feysydd cwricwlaidd. Rhoddir sylw da i wella llythrennedd yng nghyfnod allweddol 1 trwy gyflwyno rhaglen ffonig sydd yn annog dysgu adref. Yn 2006, bu'r ysgol yn llwyddiannus wrth adnewyddu ei Marc Ansawdd gyda'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

78 Yng nghyfnod allweddol 1, mae cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a datrys problemau, ond nid yw hyn mor amlwg yng nghyfnod allweddol 2. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn nodwedd ragorol ar draws yr ysgol.

79 Caiff medrau dwyieithog disgyblion eu hyrwyddo'n llwyddiannus. Rhoddir blaenoriaeth uchel i hyrwyddo dwyieithrwydd, diwylliant a thraddodiadau Cymru ac mae enghreifftiau da o gynllunio gwersi sydd yn ymgorffori'r Cwricwlwm Cymreig mewn modd dychmygus a phwrpasol. Rhoddir pwyslais da ar roi cyfleoedd uniongyrchol i ddisgyblion i gyfrannu at ddiwylliant Cymreig trwy eu hymglymiad gyda'r Urdd. Ar draws yr ysgol, rhoddir sylw da bob amser i annog medrau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

80 Mae gan yr ysgol amrediad da iawn o weithgareddau allgyrsiol, diwylliannol a chymunedol. Mae'r amrediad o glybiau ar ôl ysgol, sydd yn cynnwys drama a digwyddiadau chwaraeon yn eithriadol. Ceir ymweliadau rheolaidd i leoliadau eraill yn bell ac agos ynghyd a mewnbwn ymwelwyr i'r ysgol sydd yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

81 Caiff profiadau addysgol disgyblion eu cyfoethogi gan amrediad o bartneriaethau effeithiol. Mae'r cysylltiadau gyda'r rhieni a'r gymuned ehangach yn rhagorol. Rhydd nifer o rieni gefnogaeth dda i ddisgyblion gyda gweithgareddau'n gysylltiedig â'r dosbarth ac ymweliadau ysgol. Mae'r datblygiad o dir yr ysgol yn esiampl arbennig o dda o hyn. Mae profiadau traws cwricwlaidd disgyblion B6 trwy'r prosiect 'Classe de Mer' yn cynyddu cymhelliant a'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r ardal leol yn sylweddol. Mae partneriaethau effeithiol gyda busnesau lleol a Phrifysgol Gogledd Cymru yn darparu gweithgareddau cyfoethogi pwrpasol pellach i'r disgyblion.

82 Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau da gydag ysgolion cynradd eraill o fewn ei dalgylch. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer trosglwyddo disgyblion B6 i'r ysgol uwchradd leol yn dda ac mae'r gweithgareddau pontio yn arbennig o effeithiol. Ceir cyfleoedd da i fyfyrwyr o'r colegau lleol gael profiad gwaith yn yr ysgol.

83 Rhydd yr ysgol bwyslais cryf ar addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a chaiff ei threfniadau i gefnogi hyn eu hadlewyrchu'n llwyddiannus ym mywyd beunyddiol yr ysgol. Mae'r trefniadau hyn yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae aelodau staff yn fodelau rôl da yn hyn o beth. Maent yn hyrwyddo gwerthoedd eglur, ond maent hefyd yn gwrando ar ddisgyblion ac yn dangos iddynt caiff eu safbwyntiau a'u barnau eu gwerthfawrogi, gan eu helpu i ddatblygu hyder a hunan-barch. Mae'r athrawon yn gyfeillgar a chefnogol, ac yn hyrwyddo ymdeimlad o dda a drwg, tegwch a

gonestrwydd yn effeithiol. Maent yn ofalgar ac mae ganddynt berthnasau da gyda'r disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Mae eu llwyddiant yn amlwg yn ymagweddau aeddfed, meddylgar a gofalgar iawn ac ymddygiad a hunanddisgyblaeth dda iawn y disgyblion ar draws yr ysgol. Rhoddir sylw da i bwysigrwydd byw yn iach. Mae'r ysgol wedi derbyn achrediad Ysgol Iach ac mae ganddi gynlluniau a gweithdrefnau effeithiol a phriodol.

84 Mae sesiynau addoli ar y cyd yn cydymffurfio gyda'r gofynion statudol ac maent yn ddigwyddiadau llwyddiannus lle caiff negeseuon moesol eu rhannu'n gyson gyda'r disgyblion. Maent yn bennaf Gristnogol eu natur ac yn meithrin ethos a gwerthoedd yr ysgol yn effeithiol. Rhoddir cyfleoedd i ddisgyblion ddeall eu cyfrifoldebau fel dinasyddion y byd trwy gasglu arian tuag at y rhai sydd yn llai ffodus. Mae disgyblion yn perthnasu gyda gwahanol ddiwylliannau a chrefyddau mewn modd aeddfed a chydwybodol.

85 Mae'r sylw a rhoddir i ddatblygiad cynaliadwy, o fewn y cwricwlwm a thrwy waith gyda'r Comisiwn Coedwigaeth yn effeithiol iawn. Caiff hyn ei fwyhau ymhellach trwy ymglymiad y disgyblion mewn amrediad o weithdai rhyngweithiol yn Stad Garreglwyd, Coedwig Niwbwrch, Traeth Penrhos a Phlas Tan-y-bwlch a thrwy ymroddiad yr ysgol i brosiectau garddio a bywyd gwyllt o fewn tir yr ysgol. Rhydd hyn ddealltwriaeth ragorol o gynaladwyedd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae trefniadau ailgylchu da mewn lle ac mae'r ysgol wedi ennill gwobr aur yr Ysgolion Gwyrdd.

86 O ganlyniad i'r cynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad blaenorol, mae'r ysgol wedi gweithio'n llwyddiannus i wella cysylltiadau gyda diwydiannau lleol ac mae gan ddisgyblion bellach dealltwriaeth dda o'r medrau sydd eu hangen yn y gweithle. Maent yn datblygu'r rhain yn llwyddiannus trwy weithgareddau datrys problemau a gwaith tîm mewn nifer o feysydd pwnc. Mae prosiect 'Her Prentis' blynyddol yr ysgol, lle mae pob dosbarth yn cynllunio a gwneud cynnyrch i'w gwerthu, yn datblygu medrau menter yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi gwaith a phrofiadau disgyblion ac yn gosod seiliau cadarn ar gyfer dysgu gydol oes.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

87 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

88 Cynigir gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd o ansawdd dda i'r disgyblion. Darpara'r ysgol amgylchedd diogel i'r disgyblion ddysgu. Mae'r pennaeth a'r staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac mae gweithdrefnau effeithiol mewn lle i fonitro a chefnogi cynnydd, datblygiad a lles y disgyblion. Darperir lefel dda o oruchwyliaeth ar bob adeg, gan gynnwys amser gwersi a chwarae. Mae gan y disgyblion perthynas dda â'i gilydd a gyda'r holl staff ac maent yn gyfforddus yn y wybodaeth y medrant droi at unrhyw aelod o'r staff am help neu gyfarwyddyd.

89 Gwneir defnydd da o'r gwasanaethau cefnogi i helpu disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag AAA. Caiff yr ysgol ei chefnogi'n dda gan swyddogion lles addysg, swyddogion iechyd a swyddogion cyswllt yr heddlu. Ceir canllawiau eglur ar gyfer cefnogi disgyblion sydd ag anghenion meddygol penodol.

90 Ceir cysylltiadau da gyda'r rhieni. Cânt eu trin fel partneriaid gwerthfawr ac ystyrir eu safbwyntiau o ddifrif ac maent yn aml yn arwain at welliant yn ansawdd y gofal a'r gefnogaeth. Roedd yr ymateb i'r holiadur a ddosbarthwyd cyn yr arolygiad yn hynod o gadarnhaol ac yn canmol yr ysgol am y modd yr oedd yn helpu, cefnogi ac arwain disgyblion. Mae gan y rhieni hyder amlwg yn y gofal a dderbynia'u plant ac yn y modd mae'r ysgol yn ymateb yn syth ac yn llawn i unrhyw fater maent yn ei godi.

91 Mae safon y cyfathrebu, y cyfarfodydd, yr adroddiadau, yr ohebiaeth sydd yn rhoi gwybodaeth berthnasol am weithgareddau, yn dda. Mae'r cytundeb cartref-ysgol a'r prosbectws yn diwallu'r gofynion. Mae gan yr ysgol hefyd wefan effeithiol a defnyddiol iawn.

92 Mae'r ysgol yn cefnogi disgyblion newydd yn dda. Caiff y trefniadau sefydlu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen eu gweithredu'n dda. Mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn i amgylchedd hapus a gofalgar. Mae rhaglen bontio effeithiol iawn mewn lle ar gyfer disgyblion B6 cyn iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

93 Cynrychiola'r cyngor ysgol y disgyblion yn effeithiol iawn, gan sicrhau caiff barnau'r disgyblion eu cymryd o ddifrif. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod y materion sy'n codi mewn dull aeddfed a chyfrifol.

94 Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau eglur sydd yn cyfrannu at les, iechyd a diogelwch y disgyblion yn ystod yr amser maent yng ngofal yr ysgol. Mae holl aelodau'r staff yn ymwybodol o drefniadau'r ysgol o ran amddiffyn plant ac mae'r trefniadau gweithredu wedi eu sefydlu'n dda. Delir yn syth ac yn uniongyrchol gydag unrhyw faterion sydd yn achosi pryder. Mae asesiadau risg hefyd yn derbyn y sylw perthnasol. Mae diogelwch yr adeilad yn dda. Rhoddir sylw da i fyw yn iach a rhoddir y pwyslais priodol ar yr hyn sydd yn cyfrannu at ddull iachus o fyw.

95 Ceir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion sydd ag AAA ac mae'n diwallu gofynion y Cod Ymarfer yn llawn. Caiff disgyblion eu dynodi'n gynnar yn systematig trwy asesu athro effeithiol. Mae gan y cydlynydd AAA ddealltwriaeth eglur o anghenion y disgyblion ac yn gweithio'n dda gyda'r athrawon i sicrhau caiff pob disgybl fynediad llawn i weithgareddau'r ysgol. Darpara'r cynorthwywyr dosbarth cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion yn y dosbarthiadau.

96 Caiff cynlluniau addysgol unigol (CAUau) eu paratoi'n ofalus ar gyfer disgyblion sydd ag AAA, gan gynnwys targedau dysgu penodol ac maent yn cyfateb yn dda i'w hanghenion. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae disgyblion yn integreiddio'n dda i ddosbarthiadau a chaiff gweithgareddau eu gwahaniaethu'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae sesiynau neilltuo yn canolbwyntio'n benodol ar y targedau diweddaraf yn y CAUau ac maent yn effeithiol wrth helpu disgyblion wneud cynnydd da yn eu dysgu.

97 Mae gan yr ysgol nifer o fesurau priodol i ddileu ymddygiad gormesol. Defnyddir system llys yr ysgol yn effeithiol i annog ymddygiad cadarnhaol. Ymgynghorir yn aml gyda'r cynghorau dosbarth pan fod ymddygiad amhriodol yn digwydd a chwaraeant rôl arwyddocaol wrth gynghori ac argymell mesurau cywirol.

98 Mae rhaglen ABCh effeithiol mewn lle a chaiff ei hintegreiddio'n effeithiol i mewn i nifer o feysydd cwricwlaidd. Caiff gwers benodol ei amserlennu'n wythnosol ar gyfer hyn.

99 Mae gan yr ysgol bolisïau eglur i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth. Rhoddir sylw i oddefgarwch, perthnasau cadarnhaol a pharch tuag at eraill yn ystod gweithredoedd addoli ar y cyd ac o fewn bywyd cyffredinol yr ysgol.

100 Mae polisïau a'r gweinyddu o bresenoldeb a phrydlondeb disgyblion yn effeithiol. Cynhelir cofrestru yn brydlon ac effeithlon gan weinyddu unrhyw absenoldeb neu hwyrni a holi amdanynt yn syth.

101 Er nad oes gan unrhyw ddisgybl yn yr ysgol ar hyn o bryd unrhyw anableddau, mae gan yr ysgol mesurau mewn lle i sicrhau y cânt eu trin yn gyfartal ac nad ydynt yn cael eu rhoi dan unrhyw anfantais. Caiff y rhain eu dynodi'n eglur yng nghynllun hygyrchedd yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

102 Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad o Radd 2 a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Er nad yw'r arfarniad yn cyfateb i'r Radd 2 yng nghwestiwn allweddol 1, ym marn y tîm arolygu, mae nodweddion rhagorol yn y modd caiff yr ysgol ei harwain a'r effaith mae hyn eisoes wedi cael ar safonau.

103 Mae ansawdd yr arweinyddiaeth a ddarperir gan y pennaeth yn rhagorol. Yn yr amser cymharol fyr a bu yn yr ysgol, mae ei weledigaeth, a rhennir gan holl aelodau'r staff a'r llywodraethwyr, yn eglur. Mae'n drefnus iawn ac yn orfanwl iawn ym mhob peth mae'n gwneud. Mae'n cydlynu ymdrechion y staff a'r llywodraethwyr yn effeithiol iawn i ddarparu cyfeiriad eglur ar gyfer addysg y disgyblion, yn enwedig mewn perthynas â chodi safonau. Mae ganddo gryn effaith cadarnhaol ar waith yr ysgol.

104 Mae gan yr ysgol ddatganiad cenhadaeth eglur a gwerthoedd cryf sydd yn sicrhau fod yr ysgol yn gweithredu mewn awyrgylch o gydraddoldeb cyfle, cydymddiriedaeth a chyd-ddealltwriaeth. Mae'r modd caiff y rhain eu hadlewyrchu ym mywyd beunyddiol yr ysgol yn rhagorol. Mae trefniadaeth gyffredinol yr ysgol yn rhagorol ac mae'n gweithredu'n ddyddiol fel cymuned drefnus iawn.

105 Mae gan yr uwch dîm rheoli ddealltwriaeth dda o berfformiad yr ysgol ac mae gan gydlynwyr ysgol a chwricwlwm olwg clir iawn o'r cryfderau a'r diffygion yn eu meysydd o gyfrifoldeb. Caiff polisïau eu gweithredu'n effeithiol gan yr holl aelodau o'r staff a'r llywodraethwyr. Darparant ganllawiau eglur i hyrwyddo pob agwedd o fywyd ysgol. Mae'r holl staff addysgu a chynnal yn chwarae rôl effeithiol wrth sicrhau llwyddiant a datblygiad yr ysgol.

106 Mae gan yr ysgol weithdrefnau rhagorol ar gyfer gosod a diwallu targedau a nodau heriol a realistig. Caiff tueddiadau ysgol-gyfan, cyfnod allweddol a dosbarth eu dadansoddi'n gywir a manwl er mwyn dynodi cryfderau a diffygion.

107 Rhoddir ystyriaeth dda i flaenoriaethau'r ALl a LICC. Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol ac effeithiol i ofynion y Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008. Mae gan yr ysgol rôl weithredol yn y cynlluniau Ysgolion Iach ac Ysgolion Gwyrdd.

Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod o lwyddiannus gydag ysgolion eraill yn ei chlwstwr, y brifysgol leol a choleg addysg bellach.

108 Ceir system gwerthuso staff eglur iawn, sydd yn arwain at bob aelod o'r staff yn cael targedau cytunedig sydd yn ffocysu ar anghenion ysgol-gyfan, datblygiad pwnc neu anghenion unigol. Mae diwylliant cadarn yn yr ysgol o ledaenu arfer da gydag aelodau o'r staff yn cefnogi ei gilydd yn dda. Caiff eu hanghenion datblygiad proffesiynol parhaus eu cysylltu'n ofalus i'r blaenoriaethau a ddynodir yn y CDY. Mae'r ysgol yn cefnogi athro sydd newydd gymhwyso yn llwyddiannus ac yn darparu arweiniad da ar ei gyfer yn ystod cyfnod cychwynnol ei yrfa.

109 Mae nodweddion da i rôl y llywodraethwyr yn natblygiad strategol yr ysgol. Maent yn hynod gefnogol o'r pennaeth ac yn adnabod yr ysgol yn dda. Mae gan amrywiol bwyllgorau rolau gweithredol wrth fonitro amrywiol agweddau o waith yr ysgol. Mae ganddynt drosolwg da o'r gyllideb ac maent yn goruchwylio gwariant yn hynod o dda. Maent yn ymgymryd â'u rôl fel cyfeillion beirniadol mewn modd cefnogol ac agored. Maent yn bodloni'r holl o'u dyletswyddau cyfreithiol gorfodol ac mae'r polisïau perthnasol yn eu lle. Mae adroddiad blynyddol y llywodraethwyr a phrosbectws yr ysgol yn bodloni'r gofynion.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

110 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

111 Sefydlodd yr ysgol broses hunan arfarnu effeithiol sydd yn rhoi ystyriaeth dda i'r holl bynciau a'r meysydd dysgu ar gyfer plant 3-11 blwydd oed. Mae cydlynwyr y cwricwlwm ynghlwm wrth drafodaeth a gwerthuso systematig o'r pynciau maent yn gyfrifol amdanynt. Mae gweithdrefnau monitro llwyddiannus yn cynnwys arsylwadau gwers, edrych ar waith disgyblion, siarad gyda disgyblion a dadansoddi data. Ceir ymwybyddiaeth dda o berfformiad yng nghyd-destun sirol a chenedlaethol. Mae aelodau o banel cwricwlwm y corff llywodraethol yn cynnal eu harsylwadau dosbarth eu hunain ac yn darparu adborth defnyddiol ar gyfer ystyriaeth.

112 Mae'r adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd ar gyfer yr arolygiad yn rhagorol. Mae'n eglur, yn fanwl ac yn ymdrin â'r holl agweddau o fywyd ysgol. Caiff ei ddefnyddio fel arf effeithiol i ddynodi blaenoriaethau'r ysgol i'r dyfodol ac mae'r deilliannau yn dynodi'r camau eglur a gymerir i adeiladu ar gryfderau a chywiro'r diffygion.

113 Mae'r adroddiad yn cytuno gyda'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol. Barn y tîm arolygu yw bod nifer o nodweddion rhagorol i gwestiynau allweddol 2, 3 a 5 ac felly dyfarnwyd y Radd 1 uwch.

114 Mae gan yr ysgol nifer o systemau effeithiol mewn lle ar gyfer casglu barn ystod o bartïon sydd â diddordeb. Ceisir safbwyntiau disgyblion trwy gynghorau dosbarth ac ysgol a thrwy'r arolwg 'Ymagwedd Disgybl at Ysgol a Hunan'. Caiff eu safbwyntiau eu hystyried o ddifrif a'u parchu gan yr ysgol ac o ganlyniad, mae disgyblion yn magu hyder wrth gyflwyno syniadau a dylanwadu ar

newidiadau. Caiff safbwyntiau'r staff nad ydynt yn addysgu, y rhieni a'r llywodraethwyr i gyd eu hystyried ac mae diwylliant hunan beirniadol a chynhaliol wedi ei sefydlu'n gadarn i wella'r ddarpariaeth a'r perfformiad. Gwelir hyn fel rhan o arfer rheolaethol da parhaus.

115 Cytunir ar flaenoriaethau'r CDY yn dilyn archwiliadau a dadansoddiadau manwl o'r wybodaeth sydd ar gael. Mae'n ddogfen ddefnyddiol sydd yn rhoi cyfeiriad strategol i waith yr ysgol, gan ddynodi'n eglur y camau angenrheidiol ar gyfer pob blaenoriaeth gyda'r cyfrifoldebau, costau, terfynau amser a'r deilliannau mesuradwy priodol. Fodd bynnag, nid yw'r cydberthynas rhwng yr adroddiad hunan arfarnu, y blaenoriaethau yn y CDY a thargedau unigol disgyblion bob amser yn eglur. Darpara'r corff llywodraethol a'r pennaeth adnoddau da i gefnogi blaenoriaethau yn yr addysgu a'r dysgu. Caiff cynnydd ei fonitro a'u harfarnu'n rheolaidd ac effeithiol.

116 Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Mae wedi gweithredu'n effeithiol a phriodol mewn ymateb i'r materion allweddol. Mae'r camau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion mewn gwyddoniaeth yng nghyfnod allweddol 1 ac mewn dylunio a thechnoleg ac addysg grefyddol yn y ddau gyfnod allweddol.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

117 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cytuno gyda'r arfarniad a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu. Er nad yw'r arfarniad yn cytuno gyda'r Radd 2 ar gyfer cwestiwn allweddol 1, barn y tîm arolygu yw bod y cryn fuddsoddiad a gwelliant mewn adnoddau yn y deunaw mis diwethaf eisoes yn cael effaith arwyddocaol ar ba mor dda mae dysgwyr yn cyflawni, yn enwedig yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

118 Caiff disgyblion eu cefnogi'n dda gan nifer priodol o athrawon cymwys a phrofiadol sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd i addysgu holl agweddau o gwricwlwm yr ysgol. Maent yn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau'n rheolaidd trwy hyfforddiant mewn-swydd. Mae'r modd y defnyddia'r athrawon y medrau newydd hyn yn eu haddysgu yn nodwedd ragorol.

119 Mae'r cynorthwywyr addysgu yn cydweithio'n effeithiol gyda'r athrawon ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol iawn at y dysgu a'r addysgu. Mae gweinyddwr, staff arlwyo a glanhawr ysgol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ethos a lles y disgyblion.

120 Mae gan yr ysgol ddynesiad cydlynol a helaeth at ddatblygiad proffesiynol yr holl staff. Mae ystod dda o gyfleoedd hyfforddi yn sicrhau caiff anghenion hyfforddiant unigol yr holl staff eu cynnal i safon uchel. Caiff eu profiadau eu rhannu'n effeithiol gydag aelodau eraill o'r staff ac o ganlyniad yn cael effaith cadarnhaol ar safonau.

121 Derbynia'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu gyfleoedd da ar gyfer datblygiad proffesiynol pellach. Mae diwrnodau hyfforddiant a chyfarfodydd staff yn bwrpasol ac wedi eu cysylltu'n uniongyrchol ag anghenion a blaenoriaethau'r ysgol.

122 Caiff amser cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer y staff addysgu ei drefnu a'i weithredu'n effeithlon. Defnyddir yr adnoddau a ddyrennir ar gyfer lleihâi'r baich gwaith ac ailfodelu'r gweithlu yn effeithiol. Caiff y trefniadau hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu'r disgyblion.

123 Mae ansawdd yr adnoddau dysgu yn rhagorol ar gyfer yr holl feysydd dysgu. Maent yn arbennig o amlwg mewn TGCh. Gwneir defnydd rhagorol ohonynt i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r disgyblion. Mae'r pennaeth yn arbennig o lwyddiannus wrth gaffael cymorthdaliadau ychwanegol i gynnal cyllideb yr ysgol ac mae'r rhieni yn codi symiau sylweddol bob blwyddyn. Mae'r arian ychwanegol hwn yn caniatáu'r ysgol i wella ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i ddisgyblion yn gyson ac i ddatblygu'r adeiladau a'r ystafelloedd.

124 Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn dda ac yn diwallu anghenion y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr. Y tu fewn, mae'r dosbarthiadau yn ddigonol yn nhermau gofod ac mae bwrdd gwyn rhyngweithiol ym mhob un. Cafodd yr ardal allanol ei ddatblygu'n helaeth a sensitif ac mae'n cynnwys gardd ac ardaloedd chwarae sydd wedi eu cyfarparu'n dda. Mae'r defnydd a wneir o'r ardal hon i wella profiad dysgu'r disgyblion yn rhagorol. Mae arddangosfeydd byrlymus o ansawdd uchel iawn ym mhob ardal o'r ysgol yn helpu creu amgylchedd sydd yn gydnaws â dysgu effeithiol.

125 Caiff y gyllideb ei rheoli'n effeithiol iawn gan y pennaeth a'r corff llywodraethol. Mae gan y corff llywodraethol weithdrefnau cadarn i sicrhau y dilynir y gweithdrefnau ariannol cywir. Sicrha'r pennaeth fod adnoddau'r gyllideb yn cael eu cydweddu'n dda i'r blaenoriaethau yn y CDY.

126 Rhydd yr ysgol werth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu

Mathemateg

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

127 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda mewn sesiynau llafar a phen, gan arddangos dealltwriaeth dda o nifer ac arian. Maent yn medru cyfrif yn hyderus mewn deuoedd a phumoedd yn ogystal ag adio a thynnu rhifau hyd at 20.

128 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn dynodi odrifau ac eilrifau'n gywir ac yn gwneud cynnydd da wrth archwilio ystod o batrymau rhif sylfaenol. Gwna'r mwyafrif o ddisgyblion gynnydd da mewn perthynas â medrau datrys problemau syml yn gysylltiedig ag arian.

129 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod siapau dau-ddimensiwn cyffredin ac yn disgrifio'u priodweddau'n gywir. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn creu ystod o raffiau yn hyderus ac yn dehongli'r canlyniadau'n gywir.

130 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu geirfa fathemategol briodol ac yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu dealltwriaeth

sylfaenol o werth lle. Mae llawer o ddisgyblion ar ben isa'r cyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio'u tablau lluosi ac yn arddangos medrau meddwl chwim pan yn gysylltiedig â phroblemau bob dydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o rifau negyddol.

131 Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu gwybodaeth dda o briodoldebau cysylltiol siapau dau- a thri-dimensiwn. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o gymesuredd pan yn gysylltiedig â siapau dau-ddimensiwn syml ac yn datblygu dealltwriaeth dda o onglau.

132 Gwna llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gynnydd da wrth ddefnyddio a dehongli data mewn ffurf gwahanol fathau o raffiau. Caiff y gwaith ei fwyhau ymhellach gan eu defnydd hyderus o TGCh i adeiladu amrywiaeth dda o raffiau a thablau. Gwna'r mwyafrif o ddisgyblion gynnydd da yn eu dealltwriaeth o ffracsiynau.

133 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle rhifau mwy. Defnyddiant y pedwar rheol rhif gyda hyder cynyddol ac maent yn medru gweithio'n gyflym a chywir wrth rifo yn ysgrifenedig neu trwy ddefnyddio dulliau rhifo yn y pen. Datblygant eu medrau i ddatrys problemau mathemategol yn ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau.

134 Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da trwy ddefnyddio'r rhaglen 'Maths Whizz' gaiff ei asesu a'i fonitro'n rheolaidd. Ar draws yr ysgol, mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion mewn sesiynau'r pen yn rhagorol.

Diffygion

135 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Gwyddoniaeth

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

136 Ar draws cyfnodau allweddol 1 a 2, gwna llawer o ddisgyblion gynnydd da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wyddoniaeth a defnyddiant eirfa wyddonol yn briodol. Cofnodant eu canfyddiadau a'r canlyniadau'n effeithiol gan ddefnyddio siartiau, diagramau, testun a TGCh.

137 Yng nghyfnod allweddol 1, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini. Deallant fod angen diet digonol ac amrywiol i gadw'n iach. Maent yn enwi prif rannau'r corff dynol ac yn disgrifio eu pwrpas yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o effaith ymarfer ar eu cyrff ac yn gwybod fod ysmygu a chamddefnyddio cyffuriau yn ddrwg iddynt.

138 Yng nghyfnod allweddol 1, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau arsylwi da ac yn ymateb yn briodol i syniadau gwyddonol. Maent yn cyfathrebu eu syniadau mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn hyderus yn eu gwybodaeth am bethau byw ac anfyw. Mae llawer yn wybodus am yr amodau sydd angen ar blanhigion er mwyn tyfu ac arddangosant hyn trwy ymchwiliadau syml. Maent yn ymwybodol o gynefin gwahanol anifeiliaid. Mae llawer yn grwpio

deunyddiau'n gywir yn ôl eu priodweddau ac yn adnabod y pethau sydd yn debyg ac yn wahanol rhyngddynt.

139 Mae gan lawer ddealltwriaeth dda fod grymoedd yn gweithredu mewn cyfeiriad arbennig a bod grymoedd yn medru gwneud pethau gyflymu, arafu neu newid cyfeiriad. Maent yn gwahaniaethu'n briodol rhwng tynnu a gwthio.

140 Yng nghyfnod allweddol 1, mae medrau ymchwiliol y mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n dda; maent yn dechrau gwybod sut i droi syniadau a gynigir iddynt, i ffurf gellir ei ymchwilio. Maent yn adnabod fod rhaid i brawf fod yn deg.

141 Yng nghyfnod allweddol 2, defnyddia'r rhan fwyaf o ddisgyblion eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i gysylltu achos ac effaith wrth egluro sut mae cylched drydan yn gweithio a sut gaiff ei rheoli trwy ddefnyddio switsh. Deallant y gwahaniaeth rhwng dargludydd ac ynysydd trydanol. Mae gan lawer ddealltwriaeth dda o sut gaiff trydan ei ddefnyddio yn y cartref ac yn beryglus os gaiff ei gamddefnyddio.

142 Mae llawer o ddisgyblion yn adnabod fod perthnasau bwydo yn bodoli rhwng planhigion ac anifeiliaid mewn cynefin, ac yn disgrifio'r perthnasau hyn yn hyderus, gan ddefnyddio cadwyni bwyd. Disgrifia'r disgyblion wahanol gynefinoedd a'r creaduriaid sydd yn byw ynddynt yn gywir.

143 Ymateba'r mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 i awgrymiadau ac maent yn cynnal ymchwiliadau yn llwyddiannus o dan arweiniad yr athrawon. Wrth iddynt symud i fyny drwy'r cyfnod allweddol, maent yn dechrau cael dealltwriaeth dda o'r angen i ragfynegi deilliannau, beth i gadw'r un fath, beth i newid a phwysigrwydd prawf teg. Mae ychydig yn medru cynllunio a threfnu eu hymchwiliadau eu hunain yn annibynnol.

Diffygion

144 Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddylunio ymchwiliadau eu hunain a phennu eu dulliau eu hunain o gofnodi eu canfyddiadau yn danddatblygedig.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

145 Ar draws yr ysgol, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd rhagorol mewn llawer o agweddau o TGCh. Defnyddiant yr eirfa gywir i ddisgrifio nodweddion meddalwedd a chaledwedd ac arddangosant eu gallu i wneud defnydd cynyddol soffistigedig o feddalwedd safonol yn hyderus.

146 Mae rheolaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 o'r llygoden yn gwella'n raddol a dônt yn hyfedr ar y bysellfwrdd. Defnyddia lawer ohonynt gamerâu digidol a Tuffcam yn hyderus ac effeithiol i gofnodi arsylwadau. Defnyddiant feddalwedd paentio'n ddychmygus i greu amrywiaeth o luniau.

147 Defnyddia'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 1 y Bee-bot gyda hyder cynyddol trwy raglenni cyfarwyddiadau ar bad bys i'w symud mewn cyfres o gyfeiriadau dilyniannol.

148 Defnyddia'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 feddalwedd prosesu geiriau'n effeithiol i greu taflenni lliwgar a llawn gwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwilio'r rhyngrwyd yn hyderus i gael mynediad at safleoedd priodol i wella eu gwaith.

149 Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu a thrin gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd a chyda graddfa uchel o hyder. Mae gwefan ysgol effeithiol yn annog rhyngweithio rhwng y cartref a'r ysgol a chaiff ei ddefnyddio'n rheolaidd a'i ddiweddaru gan lawer o ddisgyblion.

150 Yn B6, mae disgyblion yn cynllunio a pharatoi cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus ac yn annibynnol ac yn ystyried pwrpas y cyflawniad ynghyd a'r darpar gynulleidfa gydag aeddfedrwydd. Maent yn ymgorffori lluniau a delweddau wedi eu sganio'n effeithiol iawn i gynhyrchu gwaith trawiadol.

Diffygion

151 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Dylunio a thechnoleg

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

152 Ar draws yr ysgol, arddangosa llawer o ddisgyblion fedrau da wrth dorri, siapio, uno a chydosod. Mae'r holl ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelwch mewn tasgau ymarferol.

153 Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r broses o ddylunio, cynllunio, gwneud a gwerthuso yn gadarn a chaiff ei ddilyn yn hyderus gan yr holl ddisgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i hygyrchu gwybodaeth i ymchwilio gwahanol destunau.

154 Mae medrau arfarnu llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Disgrifiant ac eglurant y gwrthrychau maent wedi dylunio yn fanwl, maent yn barnu pa mor dda mae'n gwneud y dasg y cafodd ei gynllunio ar ei gyfer, beth yw ei nodweddion da a beth ellir ei wella. Maent yn egluro'n synhwyrol beth roeddent yn ei gael yn anodd ac yn dangos hyder wrth gynghori ei gilydd wrth esbonio'r hyn maent wedi ei ddysgu.

155 Yng nghyfnod allweddol 1, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus wrth siarad am eu syniadau a sut fynd ati i ddatrys tasgau syml trwy brofi a methu. Gwnânt benderfyniadau am eu syniadau a chynnig gwahanol ffyrdd o wneud pethau.

156 Yng nghyfnod allweddol 1, rhydd y mwyafrif o ddisgyblion ystyriaeth gofalus i'r hyn ddylid ei hymgorffori i'w dyluniadau wrth wneud, er enghraifft, pypedau llaw Nadolig, porthydd-adar, teisennau priodas a pharatoi byrbrydau ffrwythau iachus. Mae tystiolaeth eglur o ymchwil gofalus a phwrpasol; maent yn cynnig newidiadau'n hyderus cyn cychwyn ar eu cynnyrch terfynol.

157 Mae gan lawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ddealltwriaeth dda o sut mae 'dyfeisiadau rheoli' yn gweithio ac yn rhaglenni'r Bee-bot yn llwyddiannus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rheoli

ymhellach trwy ddefnyddio 'ProBot' ac yn ysgrifennu rhaglenni syml yn llwyddiannus i gwrdd â heriau penodol.

158 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion bron bob amser yn cynllunio'n ofalus; yn dewis y deunyddiau, cyfarpar, offer a'r technegau priodol. Maent yn mesur, marcio, torri allan ac uno amrediad o wahanol ddeunyddiau gyda hyder a medr cynyddol. Maent yn trafod eu cynnyrch gyda dealltwriaeth a gwybodaeth dda o'r broses maent wedi bod trwyddo.

159 Yn eu gwaith ar, er enghraifft, fframiau lluniau, sliperi a pharatoi byrbryd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn dylunio a gwneud cynnyrch gan ddefnyddio amrediad o ddeunyddiau a chydrannau, gan gydweddu'r nodweddion gweithio i'r dasg yn llwyddiannus.

160 Dangosant ddealltwriaeth dda o sut gellir defnyddio mecanweithiau syml i gynhyrchu gwahanol fathau o symudiad yn eu gwaith ar bontydd a chlociau. Defnyddiant ffynonellau gwybodaeth yn hyderus i gynhyrchu syniadau ac maent yn ystyried golwg, pwrpas, diogelwch a dibynadwyedd.

161 Fel rhan o'u prosiect pontio i'r ysgol uwchradd, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion B6 ddealltwriaeth dda o sut mae synwyryddion digidol ac allgynhyrchion digidol yn gweithio yn gysylltiedig â rhannau gweithredol drws garej a goleuadau traffig. Trwy ddefnyddio TGCh, maent yn paratoi cynnyrch gweithiol yn gymwys a llwyddiannus.

Diffygion

162 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Hanes

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

Nodweddion rhagorol

163 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn groyw iawn wrth drafod ac ymateb i'r gwaith maent wedi ei wneud ar yr Ail Ryfel Byd. Maent yn rhoi eu safbwyntiau a'u barnau personol ar wahanol ddigwyddiadau yn hyderus ac yn dod i arfarniad ar wahanol faterion. Dangosant allu da i empatheiddio gyda'r bobl oedd yn byw'r adeg hynny ac i ddeall beth allai bywyd fod fel iddyn nhw.

164 Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus iawn i ddefnyddio arteffactau ac ystod o adnoddau megis llyfrau, lluniau a'r rhyngrwyd i'w helpu i ddehongli a deall digwyddiadau hanesyddol sydd wedi cymryd lle. Caiff medrau ymchwil eu datblygu'n dda iawn, mae disgyblion yn cyflawni tasgau'n frwdfrydig ac yn gwahaniaethu'n effeithiol rhwng ffeithiau perthnasol a rhai amherthnasol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn cynnig eu llinellau ymchwil eu hunain yn synhwyrol a phriodol.

Nodweddion da

165 Yn y ddau gyfnod allweddol, defnyddia llawer o ddisgyblion eirfa briodol a chymalau yn gysylltiedig â threigl amser. Ceir enghreifftiau da o TGCh yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu a dealltwriaeth disgyblion.

166 Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 yn datblygu dealltwriaeth dda fod y gorffennol yn wahanol i'r presennol ac yn trefnu digwyddiadau hanesyddol yn gywir. Defnyddiant dermau syml megis hen, newydd, ddoe a heddiw yn briodol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen i gyfnod allweddol 2, mae ganddynt ddealltwriaeth gynyddol o gronoleg. Deallant gellir rhannu'r gorffennol i wahanol gyfnodau amser ac maent yn trafod y pethau tebyg ac annhebyg rhwng y cyfnodau hyn yn hyderus.

167 Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus i drafod ac ymateb i gwestiynau pan ofynnir am y gwaith maent wedi ei wneud ar bobl enwog a gwahanol gyfnodau mewn hanes. Mae adalw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o waith blaenorol yn dda.

Diffygion

168 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Addysg grefyddol

Cyfnod allweddol 1: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig
Cyfnod allweddol 2: Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Nodweddion da

169 Ar draws y ddau gyfnod allweddo, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dda o grefyddau eraill. Mae eu gwybodaeth yn datblygu'n dda trwy eu rhan weithredol mewn profiadau synhwyraidd niferus ac yn eu defnydd ymarferol o arteffactau a symbolau crefyddol.

170 Dengys plant yn y Cyfnod Sylfaen ymwybyddiaeth gynyddol o bobl a llyfrau arbennig. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i storïau crefyddol ac yn cynnig syniadau ac arsylwadau annibynnol am bethau sydd yn effeithio ar eu bywydau.

171 Arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 1 ddealltwriaeth effeithiol o bwysigrwydd traddodiadau arbennig Cristnogion, Hindŵiaid ac Iddewon ac mae llawer yn dod yn gynyddol ymwybodol o sut gaiff ffyrdd o fyw eu heffeithio gan wahanol grefyddau a sut mae pobl yn wahanol yn y modd maent yn dathlu'r diwrnodau arbennig hyn.

172 Trwy gynnal seremonïau priodas Cristnogol a chwarae rolau'r gwahanol bobl sy'n mynychu, a chymharu seremoni priodas yr Hindŵ, mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 1 wedi dod yn ymwybodol o arwyddocâd seremonïau o'r fath a sut dylai gwahanol draddodiadau gael eu parchu.

173 Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion B2 a B3 wybodaeth dda o rhai cymeriadau yn yr Hen Destament ac mae ganddynt farnau aeddfed ân y Deg Gorchymyn a'r dathliad o Shabbat, diwrnod gorffwys yr Iddewon. Maent yn medru dangos parch tuag at wahanol safbwyntiau eu cymheiriaid.

174 Yn B4 a B5, mae'r holl ddisgyblion yn archwilio'r gwahaniaethau rhwng rhai storïau yn y grefydd Gristnogol gyda rhai mewn Iddewiaeth. Gwnânt gymariaethau deallus rhwng y crefyddau.

175 Arddangosa'r rhan fwyaf o ddisgyblion B6 wybodaeth effeithiol o'r defodau, symbolau a'r traddodiadau sydd yn perthyn i'r ffydd Iddewig. Maent yn ymwybodol o Yom Kippur, Rosh Hashanah, Kosher ac yn medru siarad yn hyderus am eu hymweliad i'r synagog.

176 Mae'r holl ddisgyblion ar draws yr ysgol yn dangos empathi a pharch tuag at gredoau a safbwyntiau crefyddol pob eraill. Trwy fyfyrio yn y dosbarth a gweithredoedd dyddiol o gyd addoli, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o grefydd a dealltwriaeth o fyfyrdod a gweddi.

Diffygion

177 Nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Mae'r corff llywodraethol yn ymhyfrydu fod y tîm arolygu wedi cael fod Ysgol Kingsland yn *'ysgol dda a gofalgar gyda llawer o nodweddion rhagorol'* ac yn falch fod yr ysgol wedi cyflawni'r Radd 1 uchaf mewn pedwar o'r saith cwestiwn allweddol.

Rydym yn falch fod y tîm arolygu wedi cadarnhau ein cred ers amser fod i'r ysgol *'awyrgylch gynnes a chyfeillgar'* ac yn dynodi fod ein disgyblion yn *'teimlo'n ddiogel ac yn siarad am eu gorfoledd a'u brwdfrydedd am weithgareddau'r ysgol'.*

Rydym yn llongyfarch y disgyblion a'r staff am eu hymdrechion parhaus, ac yn arbennig o falch i nodi fod yr arolygwyr wedi cael fod 100% o'r gwersi yn dda neu ragorol, gyda'r ffigurau yn *'llawer uwch na'r darlun cenedlaethol'.* Mae gennym falchder hefyd yn y faith fod *'athrawon yn gwneud ymdrechion rhagorol i ddatblygu cymhwysedd dwyieithog disgyblion'.*

Mae'r corff llywodraethol yn ystyried hwn i fod yn adroddiad ardderchog - fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi argymhellion adeiladol y tîm arolygu, gaiff eu bwydo i mewn i'n CDY newydd er mwyn cynorthwyo yn y broses o welliant parhaus.

Hoffai'r pennaeth, ar ran y disgyblion a'r staff, ddiolch i'r tîm arolygu am y dull proffesiynol a chwrtais iddynt gyflawni eu gwaith.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Kingsland
Math o ysgol	Cynradd Cymunedol a Chyfnod Sylfaen
Ystod oedran y disgyblion	3-11
Cyfeiriad yr ysgol	Ffordd Cyttir Kingsland Caergybi Ynys Môn
Cod post	LL65 2TH
Rhif ffôn	01407 763295

Pennaeth	Mr Tristan Roberts
Dyddiad penodi	Medi 2008
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr Peter Campbell
Arolygydd cofrestredig	Merfyn Lloyd Jones
Dyddiadau'r arolygiad	20-22 Ebrill 2010

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	9	15	26	25	11	9	21	28	144

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	6	2	7

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	21:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	1:2
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	0
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	26.6
Cymhareb athro (call): dosbarth	1.3:1

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2009	83.6	94.6	93.7
Hydref 2009	81.2	92.5	93.5
Gwanwyn 2010	80.7	89.1	93.0

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	28%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2009	Nifer y disgyblion yn B2	8
Gan fod nifer y disgyblion a oedd yn gymwys am asesiad ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 yn fwy na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd o leiaf lefel 2 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	63	Yng Nghymru	81

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 2:

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2009 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr AALl a Chymru

Ysgol Gynradd Kingsland **Rhif yr AALl/Ysgol:660/2176**
Ynys Môn

Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2009 gyda meincnodi
Cyfnod Allweddol 2

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009	Ysgol 2009	AALl 2009	Cymru 2009
Saesneg	100	78	76	91	87	87	92	82	81
Cymraeg	.	70	73	.	82	86	.	76	80
Mathemateg	100	78	80	82	82	85	83	80	82
Gwyddoniaeth	100	85	84	91	88	89	92	87	86
DPC	100	74	73	82	79	82	83	77	77



Perfformiad yr ysgol dros amser (2005 - 2009)



Gwybodaeth gyd-destunol

Wedi'i meincnodi yn erbyn ysgol â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
Nodwyd canlyniadau'r ysgol yn y blychau llwyd. Mae penawdau'r colofnau yn cyfeirio at:

Chwartel 1 Mae'r ysgol ymhlith y 25% uchaf
Chwartel 2 Mae'r ysgol ymhlith y 50% uchaf ond nid y 25% uchaf
Chwartel 3 Mae'r ysgol ymhlith y 50% isaf ond nid y 25% isaf
Chwartel 4 Mae'r ysgol ymhlith y 25% isaf

Grŵp Prydau Ysgol am Ddim

16% neu fwy a hyd at 24% yn gymwys i gael Pryd Ysgol am Ddim

	Chwartel 4	Ffin Chwartel Isaf	*Chwartel 3*	Ffin Canolrif	*Chwartel 2*	Ffin Chwartel Uchaf	*Chwartel 1*
Saesneg		74		82		87	***92***
Cymraeg		67		78		89	
Mathemateg		76		***83***		88	
Gwyddoniaeth		80		88	***92***	94	
DPC		69		77		***83***	

Nodiadau:

1. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwyliedig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf

3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlch ar gyfer y flwyddyn honno.

Crëwyd yr adroddiad gan DEWi ar 15/09/2009 Tudalen 1 o 1

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Bu tîm o dri arolygydd ac asesydd cymheiriaid yn arolygu'r ysgol dros gyfnod o saith diwrnod arolygydd.

Y pennaeth oedd yr enwebai a chwaraeodd rôl helaeth yn ystod yr arolygiad.

Arsylwyd 25 o wersi neu rannau o wersi ac archwiliwyd detholiad o waith ymarferol ac ysgrifenedig y disgyblion.

Arolygwyd gweithgareddau cofrestru, addoli ar y cyd ac allgyrsiol.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r staff a'r disgyblion am eu gwaith.

Archwiliwyd yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda'r pennaeth, y staff, y rhieni a'r corff llywodraethol.

Mynychodd 16 o rieni'r cyfarfod a gynhaliwyd cyn yr arolygiad a dadansoddwyd 28 o ymatebion y rhieni i'r holiaduron a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ôl-arolwg gyda'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
Mr Merfyn Lloyd Jones Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion Cwestiynau Allweddol 1, 2, 5 a 6. gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg, hanes
Mrs Hazel Hughes Arolygydd Tîm	Cwestiynau Allweddol 3, 4 a 7. mathemateg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, addysg grefyddol
Mr William Owen Arolygydd Lleyg	Cyfrannu at Gwestiynau Allweddol 1, 3, 4 a 5
Mrs Judith Owen	Asesydd Cymheiriaid
Mr Tristan Roberts	Enwebai

Cydnabyddiaeth
Dymuna'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, y staff, y dysgwyr a'r rhieni am eu cydweithrediad cyn ac yn ystod yr arolygiad.

Y Contractwr oedd:
EPPC-Severn Crossing Cyf, Swît F2A, Tŷ Britannic, Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ